# Atebion

Dyma'r atebion i'r cwestiynau.

**Beth sy'n digwydd yn y sleidiau?**

Sleid 1: Carnifal mawr yn America ym mis Tachwedd.
Sleid 2: Siôn Corn mewn carnifal mawr yn America ym mis Tachwedd.
Sleid 3: Gêm bêl-droed yn America ym mis Tachwedd.
Sleid 4: Teulu'n bwyta bwyd arbennig yn America ym mis Tachwedd.
Sleid 5: Barack Obama yn achub bywyd twrci yn America ym mis Tachwedd.

**Beth ydy'r dathliad yn y sleidiau?**
Diolchgarwch (*Thanksgiving*). Mae pobl America'n dweud "Diolch" ym mis Tachwedd.




**Pryd maen nhw'n dathlu Diolchgarwch?**
Ar y pedwerydd dydd Iau ym mis Tachwedd.

**Sut?**
Maen nhw'n cael gwyliau – dim ysgol, dim gwaith. Mae carnifalau mawr ac mae llawer o gemau pêl-droed mawr. Maen nhw'n cael bwyd arbennig – twrci, llysiau, pei pwmpen neu afal. Mae teuluoedd yn mwynhau siarad, chwarae gemau ac ymlacio.

Hefyd, mae Barack Obama yn achub bywyd twrci ym mis Tachwedd.

**Pam maen nhw'n dathlu Diolchgarwch?**

| Medi, 1620 | Tachwedd , 1620 | 1620-1621 | Rhagfyr 13-15, 1621 |
|---|---|---|---|
| Aeth grŵp o bobl o Plymouth, Lloegr, i America ar y llong Mayflower. | Glanion nhw yn America. | Roedd bywyd yn America'n anodd ond gweithion nhw'n galed i adeiladu cartrefi ac i dyfu bwyd. | Dathliad arbennig i ddweud "Diolch" i Dduw am y bwyd a'r bywyd newydd.<br><br>Dyna ddechrau dathlu Diolchgarwch. |

CIWB

| Geirfa | |
|---|---|
| achub | to save |
| bywyd | life |
| diolchgarwch | thanksgiving |
| pedwerydd | fourth |
| pwmpen | pumpkin |
| ymlacio | to relax |
| aeth | went |
| llong | ship |
| anodd | difficult |
| glanio | to land |
| gweithio'n galed | to work hard |
| adeiladu | to build |
| tyfu | to grow |
| dathliad | celebration |
| Duw | God |